Cymorth Ysgrifennu Bid ar gyfer Prosiectau Ynni Glân / Datgarboneiddio yn y Dyfodol

Nodiadau Canllaw, Cymhwysedd a Chwestiynau a Ofynnir yn Aml (FAQs)

Cefndir

Yn 2025, bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn lansio Cronfa Ynni Glân Gogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnig cyllid i brosiectau cyfalaf sy'n ymwneud â datrysiadau ynni lleol blaengar a phrosiectau datgarboneiddio ehangach yn y trydydd sector a'r sector preifat (SME) ar draws Gogledd Cymru. Bydd hefyd yn cyd-fynd â chyllid cyfalaf sydd ar gael ar hyn o bryd drwy Gronfa Fuddsoddi i Gymru, Banc Busnes Prydain a Chynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd, Banc Datblygu Cymru, ymhlith eraill.

Er mwyn bod yn barod am hyn, bydd y cyllid ysgrifennu bid yn darparu cefnogaeth i sefydliadau Gogledd Cymru nad ydynt erioed wedi gwneud cais am gyllid grant neu fenthyciad o'r blaen a/neu'r rhai sydd wedi bod yn aflwyddiannus gyda cheisiadau blaenorol neu sy'n gallu dangos rhesymau eraill pam fod angen y cymorth hwn i sicrhau bod eu prosiect ynni glân yng Ngogledd Cymru yn symud ymlaen.

Mae'r cyllid refeniw hwn ar gyfer cymorth ysgrifennu bid o hyd at £5,000 (yn cynnwys TAW) fesul ymgeisydd llwyddiannus.

Cymhwysedd

Sefydliadau cymunedol a mentrau bychan[1], sy'n gallu dangos eu bod angen cymorth, sy'n gymwys i wneud cais cyhyd â bod gan Sefydliadau ei brif leoliad yn un neu fwy o'r 6 awdurdod lleol hon yng ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam) ac yn gallu dangos tystiolaeth eu bod yn masnachu o eiddo yng ngogledd Cymru.

Mae cyllid ar gael ar gyfer 3 sefydliad/menter fach ym mhob un o 6 sir Gogledd Cymru ar sail y cyntaf i'r felin, a fydd yn cael ei bennu gan y drefn y derbynnir ceisiadau llawn drwy e-bost. Felly, dim ond drwy e-bost y gellir derbyn ceisiadau. Ni fydd unrhyw geisiadau a gyflwynir yn anghyflawn yn cael eu hystyried. Mae'r holl ddyfarniadau yn ddewisol ac nid oes proses apêl. Nid yw gwneud na chyflwyno cais am y grant yn gwarantu y bydd unrhyw gyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer cymorth ysgrifennu'r cynnig hwn. Bydd yr holl geisiadau a dderbynnir ar ôl derbyn 3 fesul sir yn cael eu cadw ar restr wrth gefn pe bai cyllid dilynol yn dod ar gael (yn yr un drefn ar sail cyntaf i'r felin).

Bydd gofyn i'r Ymgeisydd Grant ddewis ei gyflenwr ysgrifennu bid ei hun o Restr Cyflenwyr Ffafriedig fydd yn cael ei darparu gan Uchelgais Gogledd Cymru.

1 Fel y diffinnir gan Lywodraeth y DU, diffinnir menter fach fel menter sy'n cyflogi llai na 50 o bobl ac nad yw cyfanswm trosiant blynyddol a/neu fantolen flynyddol yn fwy na 10 miliwn EUR.

Cwestiynau a Ofynnir yn Aml (FAQ):

Ar gyfer beth mae'r arian?

Mae'r arian sydd ar gael yn daliad grant i gynorthwyo i ysgrifennu bid ar gyfer sefydliadau sy'n ddibrofiad o wneud cais am grantiau cyfalaf a/neu fenthyciadau neu sydd wedi bod yn aflwyddiannus gyda cheisiadau am gyllid blaenorol.

Rhaid i'r sefydliad fod â phrosiect fydd yn arwain at un neu ddau o'r isod:

- 1. Gostyngiad mewn allyriadau CO2 drwy welliannau effeithlonrwydd ynni.
- 2. Cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Pwy gaiff wneud cais?

Mae sefydliadau cymunedol a mentrau bychan yn gymwys i wneud cais cyhyd â bod gan Sefydliadau ei brif leoliad yn un neu fwy o'r 6 awdurdod lleol hon yng ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam) ac yn gallu dangos tystiolaeth o'u gweithrediadau o eiddo yng ngogledd Cymru. Byddant yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer y cyllid hwn (llai na 50 o weithwyr/gwirfoddolwyr). Rhaid i bob ymgeisydd ddangos yn ddigonol eu bod angen cymorth mewn un neu fwy o feysydd cymorth ysgrifennu bid sy'n ymwneud â phrosiect ynni / datgarboneiddio sydd ar y gweill yng ngogledd Cymru.

Faint o gyllid sydd ar gael?

Dyma gyllid refeniw am hyd at uchafswm o £5,000 (yn cynnwys TAW) ar gyfer cymorth ysgrifennu bid. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael Rhestr Cyflenwyr Ffafriedig i ddewis cyflenwr ohoni er mwyn darparu'r gefnogaeth ofynnol.

Gallwn ni gynnwys TAW yn y cais am gyllid grant ac yna ei ad-dalu?

Os yw TAW yn adferadwy ni ellir ei ariannu gan grant.

Pan fo Cyflenwr wedi'i gofrestru ar gyfer TAW ac yn cynnwys TAW yn ei ddyfynbris, dim ond os na allwch chi, y derbynnydd grant, adennill TAW (nawr neu yn y dyfodol) y gellir ariannu hyn. Os gallwch chi (y derbynnydd grant) adennill TAW, bydd angen i'ch cais am grant eithrio TAW.

Bydd angen ad-dalu unrhyw TAW sydd wedi'i ariannu gan grant ac yna ei adfer gan yr Ymgeisydd Grant, i Uchelgais Gogledd Cymru.

Faint o sefydliadau fydd yn cael eu cefnogi?

I ddechrau, bydd 3 sefydliad o bob un o'r chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam) yn cael eu cefnogi ar sail cyntaf i'r felin cyn belled â'u bod yn dangos angen priodol yn y ffurflen gais.

Cedwir unrhyw ymgeiswyr ychwanegol ar restr wrth gefn a byddant yn cael eu cefnogi os bydd cyllid digonol ar gael. Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn cyflwyno cais cyn gynted â phosib gan y bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn y drefn y'u derbynnir drwy e-bost yn unig. Ystyrir unrhyw geisiadau anghyflawn yn anghymwys. Mae'r holl ddyfarniadau yn ddewisol ac nid oes proses apêl. Nid yw gwneud na chyflwyno cais am y grant yn gwarantu y bydd unrhyw gyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer cymorth ysgrifennu bid hwn.

O ble allwn gael y ffurflen gais?

Mae'r ffurflen gais ar gael ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru: [ychwanegu dolen].

Gellir gwneud cais amdani hefyd o: ynni@uchelgaisgogledd.cymru

Erbyn pryd mae angen i ni wneud cais?

Dyrennir y grant i ymgeiswyr cymwys a llwyddiannus ar sail **cyntaf i'r felin** . Dim ond drwy e-bost y derbynnir ceisiadau a byddant yn cael eu hasesu yn y drefn maent yn cael eu derbyn. Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn gwneud cais cyn gynted â phosib. Y dyddiad cau yw **30 Awst 2024** neu'n gynt os bydd y cyllid wedi'i ddyrannu'n llawn.

I ble'r ydym yn cyflwyno cais llawn?

Dylid anfon ceisiadau llawn at: ynni@uchelgaisgogledd.cymru
Dim ond ceisiadau llawn fydd yn cael eu hystyried. Ystyrir unrhyw geisiadau anghyflawn yn anghymwys.

Beth yw'r meysydd cymwys?

Rhaid i sefydliad llwyddiannus fod â phrif leoliad yn un neu fwy o'r 6 awdurdod lleol hyn yng ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam) a gallu dangos tystiolaeth o'i weithrediadau o eiddo yng ngogledd Cymru.

Dim ond un cais i bob sefydliad fydd yn cael ei ystyried, hyd yn oed os oes ganddynt sawl lleoliad yng ngogledd Cymru.
Sicrhewch eich bod yn nodi eich prif leoliad yng ngogledd Cymru yn y ffurflen gais.

Beth yw dyddiad dod i ben y cais?

Asesir ceisiadau ar sail cyntaf i'r felin. Felly, bydd y cyfnod cyflwyno ceisiadau yn cau cyn gynted ag y bydd yr holl gyllid wedi'i ddyrannu. Ar yr hwyraf, bydd y cyfnod cyflwyno ceisiadau yn cau ar 30 Awst 2024. Os bydd mwy o gyllid yn dod ar gael, mae gan Uchelgais Gogledd Cymru yr hawl i ymestyn y dyddiad dod i ben mewn 1 neu fwy o'r 6 awdurdod lleol yng ngogledd Cymru.

Erbyn pryd mae angen gwario'r arian?

Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus fod wedi derbyn y cymorth ysgrifennu bid a chwblhau'r anfonebu ddim hwyrach na 31 Hydref 2024.

A yw'r grant hwn yn ariannu'r prosiect ynni/datgarboneiddio gwirioneddol?

Na, mae'r grant hwn ar gyfer cymorth ysgrifennu bid yn unig.

Mae adborth ymgysylltu â'r farchnad yn awgrymu nad oes gan rai sefydliadau llai / llai profiadol yr adnoddau a/neu'r arbenigedd i ymgeisio'n llwyddiannus am grantiau cyfalaf mwy a/neu fenthyciadau. Mae'r ceisiadau grant cyfalaf / benthyciad mwy hyn yn tueddu i fod angen gwybodaeth fanylach am brosiect ac yn aml mae angen ymatebion arbenigol fel effeithiau ar fioamrywiaeth ac allyriadau carbon ymhlith llawer o rai eraill. Felly, nod y grant hwn yw helpu i ddileu'r rhwystrau hyn fel bod gan ymgeiswyr llwyddiannus fwy o hyder wrth wneud cais am gyllid cyfalaf yn y dyfodol ar gyfer eu prosiect ynni/datgarboneiddio.

Pam ydych angen gwybodaeth am y prosiect posib os nad yw'r grant hwn yn ei ariannu?

Bydd darparu gwybodaeth dangosol am brosiectau yn helpu i gefnogi cyfeirio at gronfeydd prosiect wrth iddynt ddod ar gael. Cydnabyddir bod gwybodaeth am brosiectau yn newid wrth i brosiect ddatblygu, felly bydd y wybodaeth yn cael ei thrin fel rhywbeth dangosol ar y cam hwn.

Mae yna sawl Cronfa (er enghraifft Cronfa Fuddsoddi i Gymru, Banc Busnes Prydain a Chynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd, Banc Datblygu Cymru) sy'n cefnogi prosiectau amrywiol ledled Cymru ar hyn o bryd a bydd darparu gwybodaeth am brosiectau yn y ffurflen gais hon yn helpu Uchelgais Gogledd Cymru i gyfeirio'r angen am gyllid at yr adnodd mwyaf priodol.

Yn ogystal, bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn lansio cronfa yn gynnar yn 2025 i ariannu prosiectau cyfalaf sy'n ymwneud ag ynni / datgarboneiddio (cymhwysedd ac amodau ar wahân yn berthnasol). Bydd gofyn i bob ymgeisydd wneud cais ar wahân am y cronfeydd cyfalaf hynny, os oes angen, a chynigir y grant refeniw hwn i alluogi'r cymorth ysgrifennu bid hwnnw ar gyfer sefydliadau llai profiadol.

Beth yw'r rhestr cyflenwyr ffafriedig?

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi caffael rhestr o gyflenwyr ffafriedig, sydd wedi mynegi y gallant ymgymryd â chymorth ysgrifennu bid ac unrhyw feysydd arbenigedd, lle bo hynny'n berthnasol. Bydd y rhestr hon ar gael i ymgeiswyr llwyddiannus gael dewis ohoni. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cysylltu'n uniongyrchol â'r cyflenwr a ddewiswyd i drefnu cyflwyno'r cymorth ysgrifennu bid ar ddyddiad y cytunwyd arno ar y cyd ond heb fod yn hwyrach na'r dyddiad y daw'r cyllid i ben (gweler uchod).

Pwy sy'n talu am anfoneb y cyflenwr?

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ariannu hyd at £5,000 (yn cynnwys TAW) i'r ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer y cymorth ysgrifennu bid. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gael dyfynbris gan ei gyflenwr dewisol cyn derbyn y cymorth. Ar ddiwedd y cymorth, bydd y cyflenwr yn rhoi anfoneb derfynol i'r ymgeisydd. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn rhoi anfoneb i Uchelgais Gogledd Cymru fel tystiolaeth fod y cymorth wedi'i dderbyn gan y cyflenwr. Yna, bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn darparu'r cyllid i'r ymgeisydd llwyddiannus. Yr ymgeisydd llwyddiannus sy'n gyfrifol am dalu'r cyflenwr yn uniongyrchol. Bydd gofyn i'r cyflenwr ddarparu ffurflen dystiolaeth ar wahân i Uchelgais Gogledd Cymru (a ddarperir i'r cyflenwr gan Uchelgais Gogledd Cymru), y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn helpu i'w llenwi.

Os nad yw ymgeisydd grant llwyddiannus yn gallu ariannu'r cyflenwr cyn derbyn yr ad-daliad grant, dylai'r ymgeisydd grant hysbysu Uchelgais Gogledd Cymru i gael trafodaeth bellach.

A ystyrir y grant yn gymhorthdal dan Gyfundrefn Rheoli Cymorthdaliadau'r DU?

Ydy, ystyrir bod y taliad grant yn gymhorthdal ac mae'n cael ei gynnig i ymgeiswyr llwyddiannus drwy'r eithriad Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) yn adran 36 Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

Drwy MFA, gall busnesau dderbyn cymhorthdal hyd at uchafswm trothwy o £315,000 dros gyfnod o dair blynedd. Mae hyn yn disodli eithriad de minimis Cymorth Gwladwriaethol blaenorol.
Er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r eithriad MFA, byddwn yn gofyn i chi ddarparu cadarnhad ysgrifenedig i ni na fydd ein cymhorthdal yn peri i chi fynd dros eich hawl o £315,000.
Bydd angen i chi ystyried unrhyw gymorthdaliadau a gawsoch yn ystod y tair blynedd diwethaf o dan eithriad MFA neu o dan eithriad de minimis Cymorth Gwladwriaethol neu'r eithriad ar gyfer 'symiau bach o gymorth ariannol' yng Nghytundeb Cydweithredu a Masnach yr UE-DU. Os byddai ein cymhorthdal yn fwy na'ch hawl sy'n weddill o dan yr eithriad MFA, ni fyddwn yn gallu darparu'r grant i chi.